Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: Kasinthula tudalen 1 o 2

Kasinthula, Malawi, Siwgwr

Photos: Traidcraft/Richard Else

Tyfwyr Siwgwr Kasinthula Cyf

Kasinthula sy'n cyflenwi siwgwr ar gyfer bariau Geobar Traidcraft. Mae gan Kasinthula tua 280 o aelodau sy'n tyfu siwgwr yn ardal dlawd iawn Chikwawa ym Malawi. Gall cyfnodau hir o sychder arwain at newyn a gall y glaw, sy'n disgyn ddwywaith y flwyddyn achosi llifogydd. Sylfaenol iawn yw'r systemau dyfrhau ac yn aml iawn mae ffermwyr yn ddibrofiad wrth werthu ar y farchnad ryngwladol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae siwgwr yn un o'r tri chynnyrch pennaf y mae Malawi'n eu hallforio, yn ail i dybaco'n unig.

Cafodd Kasinthula ei sefydlu ym 1986 gan y Gorfforaeth Siwgwr, cwmni gwladol oedd yn rhedeg melin siwgwr fasnachol. Roedd yn gobeithio troi ardal o dir eithaf aneconomaidd yn dir i dyfu siwgwr. Byddai hynny'n cynyddu faint o siwgwr craidd a ddeuai i'r felin ac yn rhoi incwm i ffermwyr gerllaw oedd yn crafu byw a phrin yn gallu tyfu digon o fwyd i'w teuluoedd eu hunain.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: Kasinthula

Kasinthula, Malawi, Siwgwr

Cafodd siwgwr Kasinthula ei ardystio'n Fasnach Deg yn 2002 ac mae'n cael ei brosesu a'i farchnata drwy siwgwr Illovo. Dyma'r tro cyntaf i gynhyrchydd sigwr cansen anorganig gael ei ardystio'n Fasnach Deg. Gall ffermwyr dyfu siwgwr ar leiniau o tua 2.5 – 3 hectar. Mae tua 30% o gynnyrch Kasinthula erbyn hyn yn cael ei werthu i brynwyr Masnach Deg, gan gynnwys cwmnïau o Wlad Belg, yr Almaen, Norwy a gwledydd Prydain gan gynnwys Traidcraft

Mae premiwm Masnach Deg yn cael ei dalu i gronfa sy'n cael ei rhedeg gan ffermwyr er budd y gymuned leol. Mae'r buddion yn cynnwys tyllau dŵr i ddarparu dŵr ffres i bentrefi. O'r blaen roedd yn rhaid i bobl nol eu dŵr o afon yn llawn crocodeils. Ym mhentref Kapasule y cloddiwyd y twll dŵr cyntaf fis Mawrth 2004. Ers hynny, nid oes raid i 500 o bentrefwyr fynd i'r afon i gael dŵr. Cloddiwyd yr ail dwll dŵr ym mhentref Chinangwa yn 2005. Chinangwa hefyd oedd y pentref cyntaf i gael trydan.

Mae incwm ychwanegol o Fasnach Deg wedi galluogi bron pob aelod i godi tŷ newydd. Yn lle cytiau mwd â tho gwellt bregus, mae'r tai newydd yn rhai cadarn, mwy gyda waliau brics a thoeau haearn sinc. Mae Kasinthula hefyd yn defnyddio peth o arian y premiwm i aredig y tir a phlannu planhigion siwgwr a chorn newydd a fydd yn cynyddu'r cnydau yn y dyfodol ac yn bwydo eu teuluoedd.

Cenhadaeth Kasinthula:

"tyfu cansenni siwgwr o safon ar gyfer cynhyrchu siwgwr ac ennill rhagor o arian er mwyn gwella bywyd nid yn unig ffermwyr ond hefyd bobl yn ardal ehangach Kasinthula yn unol â menter y llywodraeth i leihau tlodi mewn cymunedau gwledig."